Llywodraeth Cymru
Welsh Government

---

## Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 17 Chwefror 2017

---

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Gillian Baranski
Gawain Evans
Owen Evans
Jeff Godfrey
Andrew Goodall
Peter Kennedy
Natalie Pearson
David Richards
Elan Closs Stephens
James Turner
Adrian Webb
Ann Keane
James Price
Lynne Schofield
Sarah Rhodes
Toby Mason (Eitem 1)

**Yr Ysgrifenyddiaeth:**
Emma Alexander
Sarita Marshall

**Hefyd yn bresennol:**
Des Clifford (Eitem 3)
Piers Bisson (Eitem 3)

**Ymddiheuriadau:**
Sioned Evans

Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol aelodau'r Bwrdd i'w chyfarfod cyntaf ers iddi ddechrau yn ei swydd yn gynharach yn ystod y mis.

### Llywodraethu a Pherfformiad

### 1. Monitro'r Broses Gyflawni – Blaenoriaethau a Heriau Grŵp [Llafar]

1.1 Amlinellodd Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, EPS, James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, ESNR, Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG, a David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, y blaenoriaethau a'r heriau ar gyfer eu Grwpiau.

## 2. Adroddiad Cyllid [Llafar]

2.1 Rhoddwyd diweddariad ar lafar gan Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, ar gyllideb y Terfyn Gwariant Adrannol a'r sefyllfa o ran y rhagolwg ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant (MEG), yn seiliedig ar yr wybodaeth oedd ar gael ar y pryd, a'r sefyllfa o ran cyfnewid cyllidebau. Byddai Adroddiad Cyllid llawn yn cael ei ddosbarthu y tu allan i'r pwyllgor, unwaith y byddai hwnnw ar gael.

2.2 Darparwyd diweddariad ar sefyllfa ariannol sefydliadau iechyd a MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS). Byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn cael mwy o fanylion ar wahân.

## Corfforaethol

## 3. Trefniadau Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE) [Llafar]

3.1 Cafwyd diweddariad ar y datblygiadau mewn perthynas â Threfniadau Pontio'r UE gan Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog, a Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr - Trefniadau Pontio'r UE gyda chyfeiriad at y prif bwyntiau a amlinellwyd yn y Papur Gwyn 'Diogelu Dyfodol Cymru'. Roedd y rhain yn cynnwys materion cyfansoddiadol a datganoli, cwestiynau ynghylch sut y byddai meysydd sy'n gweithredu ar hyn o bryd o fewn fframwaith rheoleiddio'r UE yn cael eu trin wrth symud ymlaen, sut y byddai'r dewisiadau polisi hynny yn effeithio ar adnoddau yn Llywodraeth Cymru, ac etifeddiaeth rhai amddiffyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol.

3.2 Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Parhaol y tîm ar y Papur Gwyn, gan nodi ei fod wedi'i dderbyn yn Llundain fel dogfen eglur a chynhwysfawr a threfnus.

3.3 Roedd gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod y cyfryngau yn deall safbwynt y Prif Weinidog a bod negeseuon allweddol yn cael eu rhannu yn y sefydliad. Cydnabuwyd bod angen sicrhau bod negeseuon yn cael eu rhannu'n fwy eang. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol bwysigrwydd cynnal agwedd adeiladol ac ymroddedig at y trafodaethau ar Drefniadau Pontio'r UE er mwyn sicrhau bod buddiannau penodol Cymru yn cael eu cyfleu a bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â hwy.

3.4 Nodwyd y gwaith rhagorol sydd wedi cael ei wneud gan dîm Piers Bisson mewn cyfnod byr o amser, a chydag adnoddau cyfyngedig, a chytunwyd y dylai Trefniadau Pontio'r UE ddod yn eitem sefydlog ar agendau'r Bwrdd ac y dylid parhau i adolygu adnoddau.

3.5 Clywodd y Bwrdd bod goblygiadau Trefniadau Pontio'r UE eisoes yn dod yn amlwg yn y gwasanaeth iechyd, gan fod byrddau iechyd yn canfod bod staff sydd newydd eu recriwtio o'r tu allan i'r DU yn penderfynu peidio â derbyn eu swyddi oherwydd bod ansicrwydd am eu sefyllfa wrth symud ymlaen.

3.6 Dywedwyd wrth y Bwrdd bod sefydlu hawliau'r rheini a oedd wedi mudo i Gymru i ddod o hyd i waith yn flaenoriaeth gynnar i'r Prif Weinidog.

**4. Diweddariad ar Reoli Risg [Bwrdd(17)001]**

4.1 Ystyriodd y Bwrdd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRR) a'r dull o nodi'r risgiau hynny, mewn cyferbyniad â'r rheini ar gyfer cofrestri Grŵp.

4.2 Trafododd y Bwrdd risgiau newydd i'w cynnwys, y risgiau y'u nodwyd i'w dileu yn ogystal â diwygiadau i risgiau presennol.

4.3 Nodwyd hefyd y dylid ystyried dileu cadernid systemau TGCh o'r gofrestr, yn amodol ar drafodaeth o sylwedd mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol, ac y dylai prosesau/trywydd archwilio clir fod ar waith ar gyfer risgiau y'u dilëwyd o'r CRR a'u hychwanegwyd i'r Cofrestri Risgiau Grŵp.

4.4 Gan nad oedd gan Grŵp OFMCO Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, roedd cytundeb wedi bod eisoes y dylai Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Llywodraeth Cymru ymchwilio i wraidd risgiau OFMCO.

4.5 Nododd y Bwrdd y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno'r protocolau newydd ar gyfer rheoli risg a diolch i David Richards a Helen Morris am eu gwaith.

**Eitemau Rheolaidd**

**5 Cofnodion Drafft Cyfarfod 9 Rhagfyr a Materion sy'n Codi [Bwrdd (17)002]**

5.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr fel cofnod cywir.

**6 Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [Llafar]**

*Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol*

6.4 Adroddodd yr Ysgrifennydd Parhaol, yn ystod ei phythefnos cyntaf yn y swydd, ei bod wedi cyfarfod â'r Prif Weinidog i drafod blaenoriaethau, wedi cynnal sesiynau â staff yng Nghaerdydd a'r Gogledd, ac wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Clywodd y Bwrdd y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn ceisio sicrhau bod gan y sefydliad y gweithlu cywir i gyflwyno'r Rhaglen Lywodraethu a mynegodd ei diolch i Benaethiaid y Grwpiau am eu harweiniad wrth ddatblygu'r strategaethau trawsbynciol sy'n sail i'r Rhaglen.

*Adroddiadau Eithrio*

6.5 Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol aelodau'r Bwrdd i rannu'r materion allweddol o’u meysydd. Roedd y rhain yn cynnwys derbyn cynlluniau tair blynedd y sefydliadau iechyd, adroddiadau yn y

cyfryngau ar bwysau'r gaeaf, a chynnydd mewn meysydd fel profion diagnostig ar gyfer canser a recriwtio meddygon teulu; diweddariadau ar gyflawni targedau amrywiaeth, Bil Cymru, ac Erthygl 50; newidiadau i'r broses o bennu'r gyllideb ac enwebu dau dîm ar gyfer Gwobrau Proffesiwn Cyllid y Llywodraeth; a diweddariadau i Adolygiad y Cwricwlwm, a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

6.6 At hynny, trafododd aelodau'r Bwrdd hefyd nifer y staff a'r rheolau sydd ar waith ar gyfer eu rheoli. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol am sgwrs ar wahân ynglŷn â hyn.

## 7 Strwythur yr Is-bwyllgorau

7.1 Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariadau gan Bwyllgor Tâl yr Uwch-wasanaeth Sifil a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARC). Roedd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol yn bresennol yng nghyfarfod ARC ac wedi cymeradwyo'r sefydliad am ei fod wedi paratoi mor drwyadl ar gyfer pwerau cyllidol newydd. Clywodd y bwrdd hefyd y byddai diwrnod hyfforddi yn cael ei drefnu ar gyfer ARC i sicrhau bod gwelliannau parhaus.

7.2 Dywedwyd wrth y Bwrdd fod y Pwyllgor Gweithrediadau wedi ystyried y Cynllun Digidol drafft ar gyfer y sefydliad ac wedi cyffwrdd ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â chyrff cyfryngol cyflogaeth (IR35) ar weithio oddi ar y gyflogres.

## 8 Unrhyw fater arall

8.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw at y papurau i'w nodi a gwahodd aelodau'r Bwrdd i rannu â hi unrhyw awgrymiadau ar gyfer eitemau i'w cynnwys ar agenda'r Bwrdd yn y dyfodol.

**Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 21 Chwefror 2017**